FFRYDIO byw

"Mae ffrydio byw yn apleio'n fawr at rai plant a phobl ifanc gan ei fod yn rhoi cyfle i greu neu gyflwyno pethau sy'n gallu cael ei weld gan gunileifa anferthol o bosibl."

Marie Smith, Pennaeth Addysg, CEOP

Beth yw'r peryglon i blant?

- **Mae apiau ffrydio byw yn caniatáu i eraill ddilyn a gweld plant** – Mae'n rhaid gwirio'r gosodiadau preifatrwydd pob tro.
- **Mae ffrydio byw yn digwydd ar hyn o bryd** – Mae plant mewn perygl a rannu gormod.
- **Darlledu byw mewn lle preifat** - Gall hyn waethygu bregusrwydd plentyn.
- **Lleihau swildod** – gall plant ymddwyn yn wahanol ar-lein
- **Bydd plant angen lefelau gwahanol o gefnogaeth yn ddibynnol ar oed** – Mae bod ar eu pen eu hun yn gallu gwneud plant yn agored i oedolion gyda bwriadau troseddol.
- **Tactegau fel twyllo a seboni** – Mae rhai oedolion yn cymryd mantais ar blant drwy seboni neu roi anrhegion. Gall plant ymateb drwy ddadwisgo neu ymddwyn yn rhywiol.

Mae data gan yr Internet Watch Foundation (IWF) wedi dangos fod yna ychydig dros draean (38%) o adroddiadau i'r sefydliad o ran camdriniaeth rywiol o blant ar-lein wedi cael eu cynhyrchu gan y plentyn. Mae hyn yn golygu fod y plentyn ar ben ei hun, neu gyda phlant eraill ac yn cael eu perswadio neu eu paratoi i dynnu lluniau neu wneud fideos o gamdriniaeth rywiol plant ac yna yn eu rhannu nhw.

Casgliadau adroddiad 'Online Child Sexual Exploitation: Examining the Distribution of Captures of Live-streamed Child Sexual Abuse' yr IWF oedd fod:

- 96% o ddioddefwyr yn ferched.
- 96% wedi dangos plentyn ar eu pen eu hun, gartref.
- 98% o ddelweddau o blant dan 13 oed.
- 28% dan 10 oed.
- Roedd y plentyn ieuengaf ddim ond yn dair blwydd oed.

0:02 / 4:20

Help plant a phobl ifanc

‘Ffrwd byw a Vlogg yn ddiogel’

4K HD

Mae ffrydio byw yn datblygu i fod yn un o weithgareddau mwyaf poblogaidd ar-lein i blant a phobl ifanc. Mae apiau fel Musical.ly, Live.me, Periscope a YouNow i gyd yn mynd yn gynyddol boblogaidd, ac mae apiau eraill fel Facebook yn ychwanegu elfen ffrydio byw iddynt.



Adnoddau Dysgu #LiveSkills @www.thinkyouknow.co.uk

#LiveSkills yw pecyn o adnoddau sy’n canolbwyntio ar ffrydio byw ar gyfer disgyblion uwchradd a chynradd.

#LiveSkills sy’n trafod peryglon penodol ac arbennig i blant a phobl ifanc.

#LiveSkills:

- Hunan-barch ar gyfer oedran 8-11
- Sylw cadarnhaol a negyddol i blant 8-11 oed
- **Stori Charlie** - Astudiaeth Achos ar gyfer 13+ oed
- Erthygl yn canolbwyntio ar adnabod ac ymateb yn ddiogel i bwysau ar-lein - oedran 11-13 a 14+ oed
- Cyflwyniad 30 munud ar gyfer rhieni/gofalwyr yn egluro ffrydio byw

- Mae’r holl adnoddau wedi’u cynllunio i gael eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

Professionals Online Safety Helpline

Cefnogaeth yn rhad ac am ddim i aelodau gweithlu’r plant yn y DU sydd â phryder am ddiogelwch ar-lein.

helpline@saferinternet.org.uk
0844 381 4772

Diogelu

Darllenwch fwy am yr ap neu’r llwyfan ar sut i ddefnyddio’r ap yn ddiogel.

Gwiriwch osodiadau preifatrwydd er mwyn sicrhau mai dim ond ffrindiau a dilynwyr sy’n cael eu dewis.

Diffodd y lleoliad GEO ar yr ap, dyfais neu lwyfan.

Mae rhieni’n cael eu hannog i ddilyn neu bod yn ffrind ar gyfrif eu plant er mwyn cynnig cymorth a diogelwch.

Annog plant i feddwl yn feirniadol am yr hyn maent yn ei rannu.